**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gerddoriaeth**
**Dydd Mawrth 9 Mai 2023**
*Yn y cnawd & ac ar-lein ar Teams, rhwng 12.15 a 13.15*
Y Senedd, Ystafell Gynadledda A, Llawr Gwaelod, Tŷ Hywel, Caerdydd.
**Cofnodion y cyfarfod**

**Yn bresennol yn y cnawd:** Rhianon Passmore (RP) (Cadeirydd), Paul Carr (PC), Jack Sargent AS (JS), Carolyn Thomas AS (CT), Rhian Hutchings (RH), Keith Jones (KJ), John Pugsley (JP), Andy Warnock (AW), Richard Jones (RJ), David Jackson (DJ), Jodie Underhill (JU), Philip Morris (PM), Miranda Glen (MG), Nian Williams (NW), Susan Wood (SW) (Clerc).

**Yn bresennol ar Teams:** Peter Franccombe (PF), Lisa Tregale (LT), Heather Powell (HP), Sara Gibson (SG), Laura Drane (LD), Patricia Keir (PK), Ryland Doyle (RD), Chris Evans (CE), Patricia Bovey (PB), Mike Hedges AS (MH)

| **Eitem ar yr agenda** | **Nodwyd/Trafodwyd/Cytunwyd/Camau Gweithredu** | **Person(au) yn gyfrifol** |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a chyflwyniad**<br>Croesawodd RP bawb i’r cyfarfod, gan ddiolch iddynt am fod yn bresennol. Diolchodd RP i'r Athro Paul Carr unwaith eto am ddarparu gwasanaeth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp hwn. Yn ogystal, croesawodd RP y Seneddwraig Patricia Bovey o Ottawa yng ngwlad Canada, sy’n gweithio ym maes y celfyddydau ac sydd wrthi’n ceisio creu datganiad ynghylch parchu rôl hanfodol artistiaid a mynegiant creadigol yng Nghanada.<br>Awgrymodd RP fod PB yn siarad yng nghyfarfod nesaf y grŵp, er mwyn rhoi cyfle i bawb glywed mwy am y gwaith hwn a rhannu arfer da.<br>**CAM I’W GYMRYD:** SW i wahodd PB i siarad yng nghyfarfod nesaf y grŵp ym mis Gorffennaf. | SW PB |
| **2.** | **Ymddiheuriadau**<br>**Marie Pritchard (MP), Gerwyn Evans, Richard Jones, Llyr Gruffydd AS, Rhys Evans, Lisa Matthew-Jones, Delyth Jewell AS, Mick Antoniw AS** | |

| | | |
|---|---|---|
| 3. | **Cofnodion**<br>**Cymeradwywyd y cofnodion.** | |
| 4. | **Materion sy’n codi** | |
| 5. | **Cyflwyniad gan y panel: Cysylltedd, Partneriaeth a Chydweithio o fewn y Model Cerddoriaeth Cenedlaethol. Rhoddodd JP ddiweddariad ynghylch hynt y gwaith o ran y cwricwlwm newydd, ac ynghylch sut mae’r cwricwlwm newydd yn cysylltu â’r cynllun cerddoriaeth.**<br><br>Ailadroddodd JP y ffaith y bydd pob ysgol yn cynllunio ei chwricwlwm ei hun o fewn fframwaith cenedlaethol. Bydd y cwricwlwm hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod dysgwyr yn symud ymlaen, a bod eu cynnydd yn cael ei gefnogi gan system asesu.<br>Bydd y dull newydd yn caniatáu i ysgolion ddatblygu dulliau integredig o ddysgu, gan gofio, wrth gwrs, fod cyd-gynhyrchu wrth wraidd y ffordd y bydd cwricwlwm Cymru yn datblygu.<br>Nododd JP fod pedwar pwrpas i gwricwlwm Cymru a bod chwe maes dysgu a phrofiad yn y cwricwlwm newydd – pob un ohonynt â statws cyfartal, sy'n bwysig.<br>Bydd y celfyddydau mynegiannol ar gael i bob dysgwr drwy’r dull cynhwysol hwn, gan ehangu gorwelion pob dysgwr drwy roi cyfle iddynt ymgysylltu’n gymdeithasol, yn emosiynol ac yn gorfforol, a meithrin eu llesiant, eu hunan-barch a’u gwytnwch.<br>Mae’r cwricwlwm yng Nghymru yn cynnwys yr hawl i gymryd rhan mewn pum disgyblaeth ym maes y celfyddydau mynegiannol, sef celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a’r cyfryngau digidol, gan gynnwys ffilm, radio a dylunio gemau, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.<br>Mae’r gwaith hwn yn adeiladu ar waith Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae’r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth wedi’i lansio, gyda buddsoddiad gwerth £13.5 miliwn.<br><br>**Cam i’w gymryd: JP i ddosbarthu set o sleidiau yn cynnwys gwybodaeth bellach.**<br><br>**Cyflwynodd RP PF - ETC - Diwylliant, Chwaraeon & Twristiaeth - Cymru Greadigol.** Soniodd PF am y gefnogaeth a roddwyd gan sefydliad Cymru Greadigol i brosiectau fel Sound Check, sy’n rhoi cyfle i ddisgyblion wylio gwiriadau sain cyn y cynhelir digwyddiad. Diben y prosiect hwn, ochr yn ochr â phrosiectau eraill, yw | JP i ddosbarthu sleidiau i bawb. |

| | | |
|---|---|---|
| | cefnogi disgyblion a phobl ifanc a'u hysbysu ynghylch y gyrfaoedd a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y diwydiant cerddoriaeth.<br>**Agorodd RP y drafodaeth i'r llawr, gan wahodd cwestiynau.**<br>Gofynnodd PC eto a fyddai meini prawf asesu yn cael eu datblygu i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd.<br>Ymatebodd JP drwy ddweud nad oedd ateb i'r cwestiwn hwnnw ar hyn o bryd, ond nododd y byddai'n adrodd unrhyw wybodaeth i'r grŵp cyn gynted ag y byddai ar gael.<br>**CAM I'W GYMRYD: JP i adrodd i'r grŵp am feini prawf asesu pan fydd yn gallu rhannu'r wybodaeth dan sylw.**<br>Ailadroddodd CE y ffaith bod adnoddau helaeth ar gael o ran y cerddorion arbenigol mewn corau a bandiau y byddai modd eu defnyddio i ddylanwadu ar ddisgyblion nad ydynt, o bosibl, am ddilyn llwybr proffesiynol ym maes cerddoriaeth ond sydd am fod yn rhan o'r gymuned a chymryd rhan mewn cerddoriaeth.<br>Dywedodd RP wrth y grŵp y byddai cyfarfod o'r Fforwm Partneriaeth Cerddoriaeth yn cael ei gynnal ar Mai 17 ym Mharc Bute yng Nghaerdydd, a bod croeso i bawb gymryd rhan yn y digwyddiad hwnnw. | JP |
| **6.** | **Grŵp Trawsbleidiol Senedd Cymru ar Gerddoriaeth - Blaenoriaethau ar gyfer 2023/2024**<br>Ailadroddodd RP y ffaith bod asesu a dilyniant yn themâu cyffredin ar gyfer y grŵp hwn, ochr yn ochr â gwaith ymchwil o ran mapio cerddoriaeth yn y gymuned a cherddoriaeth fyw mewn modd cyfartal. Cadarnhaodd RP nad yw'r Grŵp Trawsbleidiol ar Gerddoriaeth yn gorff craffu. Serch hynny, nododd fod y grŵp yn gallu sicrhau mewnwelediad gwerthfawr o ran y cydweithio sy'n digwydd a'r broses o fonitro'r cynnydd cyffredinol a wneir, sy'n faterion y mae'r grŵp yn eu blaenoriaethu. | |
| **7.** | **Cyflwyno'r Model Cerddoriaeth Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Mari Pritchard, cyflwyniad ar-lein drwy gyfrwng Teams**<br>Cyflwynodd RP Mari Pritchard (MP), sydd newydd gael ei phenodi yn gydlynydd y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol. Roedd RP o'r farn y byddai'n dda clywed mwy gan MP, ond yn anffodus, nid oedd hi'n gallu bod yn bresennol. Yn sgil hynny, felly, roedd hi wedi cynhyrchu cyflwyniad fideo drwy gyfrwng Teams er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y camau cychwynnol y mae'r sector addysg cerddoriaeth yn eu cymryd o ran cydweithio at ddibenion gwireddu uchelgeisiau'r cynllun.<br>Siaradodd MP am y broses o gasglu mwy o ddata cymharol, a sut y byddai hyn yn helpu o ran monitro cynnydd, nodi heriau a llywio datblygiadau wrth symud ymlaen. Roedd hwn yn ddiweddariad cynhwysfawr iawn o'r gwaith helaeth a wnaed mewn cyfnod mor fyr, sef llai na blwyddyn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Diolchodd RP i MP am ei chyflwyniad a'i gwaith arloesol, a diolchodd hefyd i aelodau'r tîm dan sylw, Heather Powell a Sara Gibson. | |
| **8.** | **Y wybodaeth ddiweddaraf am adroddiadau a gwaith ymchwil**<br>Cafodd PC ei gyflwyno gan RP, a chafodd ei wahodd i siarad am y gwaith ymchwil y mae'n ei wneud yn y diwydiant cerddoriaeth. Mae PC yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion yn Lerpwl, Birmingham, Newcastle, Caeredin, Rotterdam, Hamburg a Milan, ac mae posibilrwydd y bydd Cologne ac Eindhoven yn ymuno â'r fenter hefyd. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn uno map o leoliadau cerddoriaeth, gan adeiladu ar y gwaith mapio y mae PC wedi'i wneud mewn partneriaeth â sefydliad Cymru Greadigol mewn perthynas â lleoliadau, ystafelloedd ymarfer a stiwdios recordio. Pe bai diddordeb yn y pwnc, nododd PC y byddai modd mapio mentrau cymunedol ym maes cerddoriaeth hefyd. Siaradodd PC am yr economi gerddoriaeth yng Nghymru. Mae ei waith ymchwil yn dangos bod 47 y cant o holl incwm y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru yn deillio o gerddoriaeth fyw. O ran yr incwm a gynhyrchir gan economi gerddoriaeth y DU, mae Cymru'n cyfrannu 9 y cant o'r incwm a gynhyrchir yn y sector cerddoriaeth fyw. Dywedodd PC fod y ffigur hwnnw'n un sylweddol iawn. Soniodd PC hefyd am bwysigrwydd sicrhau diweddariadau blynyddol ynghylch y data economaidd sy'n berthnasol i'r diwydiannau cerddoriaeth yng Nghymru, gan nad yw'r data gan UK Music yn ddigon manwl ar hyn o bryd. Nodwyd bod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y diwydiannau cerddoriaeth yng Nghymru yn tyfu'n strategol. | |
| **9.** | **Cam gweithredu gan y Grŵp Trawsbleidiol parthed gwaith ymchwil a thrafodaethau**<br>Awgrymodd RP y dylai'r cyfarfod nesaf gynnwys grwpiau trafod llai er mwyn hwyluso cydweithio pellach. Ailadroddodd HP y ffaith bod cydweithio a phartneriaethau â bandiau, cerddorfeydd a chorau cymunedol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru wedi bod mor llwyddiannus, a phwysleisiodd bwysigrwydd yr agwedd llesiant mewn perthynas â'r gwaith hwn. Nododd RP ei bod yn ymwybodol o bwysigrwydd yr agwedd llesiant, a bod angen defnyddio cerddoriaeth yng Nghymru i hyrwyddo hyn. Roedd CE yn cytuno â hyn, yn enwedig yng nghyd-destun cynhwysiant corau. Rhoddodd enghreifftiau o gorau dementia-gyfeillgar, a chorau sy'n gynnwys pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, fel cyn-garcharorion, ac ati. | |
| **10.** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan is-grŵp y Grŵp Trawsbleidiol**<br>Cytunwyd ar y cynnig i gynnal Ffair Gerddoriaeth yn y Senedd er mwyn darparu llwyfan ar gyfer arfer da a chydweithio posibl yn y dyfodol. Mae'r grŵp yn ystyried dyddiad ym mis Tachwedd 2023 ar gyfer y digwyddiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br>**Dydd Mawrth 11 Gorffennaf 2023, rhwng 12.15 a 13.15.** | Pawb |
| **12.** | **Unrhyw fater arall**<br>Dim | |